Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Anifeiliaid ac Iechyd Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Planhigion ac Iechyd Planhigion (Diwygio) 2022** |
| **DYDDIAD** | **21 Hydref 2022** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd** |

Ysgrifennaf at y Senedd i roi gwybod fy mod wedi rhoi cydsyniad i'r Ysgrifenydd Gwladol arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru. Gofynnodd y cyn-Weinidog Gwladol dros Ffermio, Pysgodfeydd a Bwyd, Victoria Prentis AS am gydsyniad i wneud Rheoliadau Anifeiliaid ac Iechyd Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Planhigion ac Iechyd Planhigion (Diwygio) 2022.

Bydd yr offeryn statudol (OS) a enwir uchod yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy arfer pwerau a roddwyd gan adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

Mae'r Rheoliadau yn cynnig diwygio cyfraith uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd a ddargedwir mewn perthynas â rheolaethau swyddogol ar fewnforion i Brydain Fawr o anifeiliaid a chynnyrch anifeiliaid, a chynnyrch planhigion (gan gynnwys bwyd) yn ogystal â rheolau am iechyd a lles anifeiliaid, a rheolau ar farchnata deunyddiau plannu a lluosogi, yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae angen diwygiadau o'r fath er mwyn sicrhau bod y cyfreithiau'n gweithredu'n effeithiol yn y cyd-destun domestig ac i ddiogelu iechyd pobl ac anifeiliaid:

- Mae Rhan 2 o'r offeryn hwn yn ymdrin â diwygiadau sy'n cywiro Rheoliad (EU) Rhif 2016/2031.
- Mae Rhan 3 yn cynnwys nifer o ddiwygiadau i'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Rheoliad (EU) Rhif 2017/625).

- Mae Rhan 4 yn ymdrin â mân ddiwygiadau gweithredol i gyfreithiau eraill yr Undeb Ewropeaidd a ddargedwir:
    - Diwygio Rheoliad (EC) Rhif 999/2001.
    - Diwygio Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005.
    - Diwygio Atodiad 2 i Benderfyniad y Comisiwn 2007/777/EC.
    - Diwygio Atodiad 1 i Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 798/2008.
    - Diwygio Atodiad 1 i Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 119/2009.
    - Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/625.

Mae hefyd yn diwygio'r Deddfau canlynol:

- Mae Rhan 5 yn ymwneud â diwygio Deddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964.
- Mae Rhan 6 yn cynnwys diwygiadau i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Lloegr) 2011 a Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Lloegr) 2018.

Mae'r OS hwn yn ymdrin â mân ddiffygion sy'n codi oherwydd ymadael âr Undeb Ewropeaidd a diffygion eraill nas rhagwelwyd ar adeg ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, ac mae'n sicrhau gweithrediad trefn fewnforio ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan. Oherwydd hynny, er mwyn effeithlonrwydd a hwylustod ac er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder o ran y llyfr statud, rwy'n credu ei bod yn briodol rhoi cydsyniad i'r OS a enwir uchod. Rwy'n gwneud hynny gan gadw'r gallu i ddargyfeirio yn y dyfodol, yn unol a'n cymhwysedd deddfwriaethol.

Gosodwyd y rheoliadau ar ffurf drafft gerbron Senedd y Deyrnas Unedig ar 20 Hydref 2022: http://www.legislation.gov.uk/id/ukdsi/2022/9780348239911.